

Tasg 1

Mwy na dim ond geiriau

Dyma restr o wledydd yr Undeb Ewropeaidd a'r flwyddyn yr ymunodd pob gwlad. **O weld y rhestr, ceisiwch restru ieithoedd swyddogol Senedd yr Undeb Ewropeaidd, wrth ymyl y gwledydd sy'n eu siarad.**

1.	Awstria	(1995)
2.	Gwlad Belg	(1958)
3.	Bwlgaria	(2007)
4.	Croatia	(2013)
5.	Cyprus	(2004)
6.	Denmarc	(1973)
7.	Estonia	(2004)
8.	Ffrainc	(1958)
9.	Gwlad Groeg	(1981)
10.	Hwngari	(2004)
11.	Iwerddon	(1973)
12.	Latfia	(2004)
13.	Lithwania	(2004)
14.	Lwcsembwrg	(1958)
15.	Malta	(2004)
16.	Gwlad Pwyl	(2004)
17.	Portiwgal	(1986)
18.	Rwmania	(2007)
19.	Slofacia	(2004)
20.	Slofenia	(2004)
21.	Sbaen	(1986)
22.	Sweden	(1995)
23.	Yr Almaen	(1958)
24.	Y Deyrnas Unedig	(1973)
25.	Yr Eidal	(1958)
26.	Y Ffindir	(1995)
27.	Yr Iseldiroedd	(1958)
28.	Y Weriniaeth Tsiec	(2004)

Cewch ddod o hyd i'r atebion ar y dudalen nesaf.

Atebion i Dasg 1:

	Enw'r iaith	Y Gwledydd lle mae'r leithoedd hyn yn leithoedd Swyddogol
1.	Almaeneg	Yr Almaen, Awstria, Gwlad Belg, Lwcsembwrg
2.	Bwlgareg	Bwlgaria
3.	Croateg	Croatia
4.	Daneg	Denmarc
5.	Eidaleg	Yr Eidal
6.	Estoneg	Estonia
7.	Ffinneg	Y Ffindir
8.	Ffrangeg	Gwlad Belg, Ffrainc, Lwcsembwrg
9.	Groeg	Cyprus, Gwlad Groeg
10.	Gwyddeleg	Iwerddon
11.	Hwngareg	Hwngari
12.	Iseldireg	Gwlad Belg, Yr Iseldiroedd
13.	Latfieg	Latfia
14.	Lithwaneg	Lithwania
15.	Malteg	Malta
16.	Pwyleg	Gwlad Pwyl
17.	Portiwgaleg	Portiwgal
18.	Rwmaneg	Rwmania
19.	Saesneg	Y Deyrnas Unedig, Iwerddon, Malta
20.	Slofaceg	Slofacia
21.	Slofeneg	Slofenia
22.	Sbaeneg	Sbaen
23.	Swedeg	Y Ffindir, Sweden
24.	Tsieceg	Y Weriniaeth Tsiec